

Cyngor Bro Llanllwni  
Adoddiad Cyfarfod 9 Ionawr 2023

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys, Llanllwni.  
Roedd y Clerc wedi rhoi poster o'r agenda yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.  
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

PLISMONA

Nid oedd heddwys yn bresennol.

Y CAE CHWARAE

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi.  
Roedd angen cadarnhau a fyddai cost ychwanegol i osod rhagor o adnoddau ar y cae chwarae. Gwnaed ymchwil, yn ogystal, ynglŷn â chael caban.

GWEFAN LLANLLWNI

Roedd Adroddiad mis Tachwedd wedi ei osod ar y wefan.

DIFFIBRILYDDION

Roedd y Clerc wedi archebu'r diffibrilydd newydd ac roedd trefniadau ar y gweill i'w roi yn ei le.  
Roedd y Clerc wedi cysylltu â'r cwmni priodol i'w hysbysu nad oes golau glas yn dangos ar y diffibrilydd ar Festri Capel Nonni. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu eilwaith am ei fod yn fater brys.

HYFFORDDIANT DIFFIBRILYDD

Roedd y Clerc wedi derbyn dyddiad i gael hyfforddiant sef nos Lun 23 Ionawr 2023.  
Lleoliad i'w gadarnhau.

CWTERION

Pob cwter rhwng Mayfield ac Abergiar a rhwng T.L.Thomas â Siop y Pentref yn llawn.  
At hyn mae'r gwter ger Gorlan angen ei thrwsio.

CLAWDD Y BRYN - FELINFACH

Mae angen torri'r clawdd o'r Bryn i Felinfach i gyfeiriad yr afon gan ei fod wedi gordyfu.

TŶ HERS

Mae CFFI Llanllwni yn llogi'r Tŷ Hers.

LLWYBR CYHOEDDUS

Roedd y Clerc wedi derbyn cadarnhad mai llwybr cerdded yn unig oedd wedi ei gofrestru ger yr Eglwys.

MANTOLEN

Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr.

HEOLYDD

HEWL ABER-CWM

Roedd y Clerc wedi sylwi bod sbwriel yn chwythu mewn i gaeau cyfagos.

GAREJ PENTOP:

Dŵr ar yr hewl.

FFYNNON-DDRAIN – GWAR-CWM:

Mae'r cwterion y tu ôl Ffynnon-ddrain wedi llenwi ac yn creu llifogydd ar yr hewl.  
Mae'r hewl wedi cael difrod oherwydd y rhow dros y Nadolig.

Penderfynwyd cefnogi: Elusen Ysbyty Plant Cymru; Ambiwlans Awyr Cymru.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.  
Daeth y cyfarfod i ben am 10.05yh.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 13 Mawrth am 8.00yh.